Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Diffiniad o gam-drin plant Rhieni Blant (CPA) Ymgynghoriad Swyddfa Gartref, cau 07/02/2023 Cyflwynwyd - 06/02/2024

## Cwestiynau:

1) **A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?**

Ar ran sefydliad

2) **Nodwch enw eich sefydliad.**

Wales Safer Communities Network

3) **Pa un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio'ch sefydliad orau?**

Arall: Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol dros ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, drwy gydweithio i hyrwyddo a chefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol a dylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol ac arferion lleol.

Dyma ymateb ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru sydd ag aelodaeth o'r 22 Cyngor, 4 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, 4 Heddlu, 3 Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Trydydd Sector, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Fe all Aelodau o'r Rhwydwaith gyflwyno eu hymateb eu hunain gyda gwybodaeth leol a phwyntiau mwy penodol sy'n berthnasol iddynt yn benodol.

4) **E-bost**

safercommunities@wlga.gov.uk

Mae tair cydran i'r derminoleg, gofynnir i chi rannu'ch barn ar bob un ohonynt. Mae'r diffiniad o CPA yn cynnwys cyfeiriad at ddau grŵp o bobl fel y nodir isod – y person sy'n arddangos ymddygiad camdriniol a'r person y mae'r ymddygiad hwnnw wedi'i gyfeirio ato. Bydd yr adran hon yn gofyn i chi am y prif derminoleg y dylid ei defnyddio i ddisgrifio'r ddau grŵp hynny.

Grŵp 1: Plant dan 16 oed. Dyma'r person sy'n arddangos yr ymddygiad.

Grŵp 2: Pobl â chyfrifoldeb rhiant am blentyn o dan 16 oed, gofalwyr (megis gofalwyr maeth), neu'r rhai sydd â pherthynas ofalu anffurfiol (fel nain neu daid sy'n darparu gofal gan berthnasau). Dyma darged ymddygiad y plentyn. Ni fyddai hyn yn cynnwys y rhai mewn sefyllfa gofal plant â thâl, er enghraifft gwarchodwr plant neu nani.

5) **A ddylai'r diffiniad ddisgrifio Grŵp 1 fel:**
   - **Plant**
   - Plant a'r glasoed
   - Rhywbeth arall

   Esboniwch eich rhesymau:

   Teimlwn y dylid defnyddio 'Plant'. Byddai hyn yn alinio â'r ddeddfwriaeth gyfredol fod unrhyw un dan 18 oed yn blentyn. Er ein bod yn ymwybodol bod Trais a Chamdriniaeth gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant hefyd yn cael ei ddefnyddio'n aml, teimlwn y gallai'r defnydd o 'berson ifanc yn y glasoed' ychwanegu elfen o amwysedd diangen. Dylai defnyddio 'Plant' helpu i osgoi disgwyliadau bod y math hwn o gamdriniaeth ond yn cyfeirio at blant hŷn.

**6) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ar y prif derminoleg?:**
   - Rhieni
   - Rhieni a gofalwyr
   - **Rhywbeth arall**

   Esboniwch eich rhesymau:

   Byddem yn awgrymu 'Rhieni neu Warcheidwaid' ar gyfer Grŵp 2 gan y gallai darparwr gofal awgrymu athro/athrawes neu ddarparwr gofal sy'n derbyn tâl.

7) **A ddylai'r diffiniad gyfeirio at:**
   - Cam-drin
   - **Trais a cham-drin**
   - Rhywbeth arall

   Esboniwch eich rhesymau:

   Byddai'r Rhwydwaith yn awgrymu cynnwys 'Trais a chamdriniaeth' yn y disgrifiad gan y bydd rhieni a gwarcheidwaid o bosibl yn destun trais a chamdriniaeth neu fygythiadau rhywiol, corfforol a meddyliol ac o ganlyniad, dylid nodi'r ddau.

**8) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ar y prif derminoleg??**

Dim byd pellach i'w ychwanegu

Disgrifiad arfaethedig o'r math hwn o gamdriniaeth yw:

Patrwm o ymddygiad lle gall ymddygiad camdriniol fod yn gorfforol, neu'n rhywiol, yn fygythiol, yn rheoli neu'n gorfodi, yn seicolegol neu'n emosiynol, neu'n economaidd.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r mathau hyn o ymddygiadau ond nid yw'n hollgynhwysol

| **Math o gamdriniaeth** | **Enghreifftiau o ymddygiad** |
|---|---|
| Corfforol neu rywiol | Dyrnu, taro, cicio, gwthio, tynnu gwallt, taflu neu binio, brathu, taflu neu daro â gwrthrychau, tagu, defnyddio arfau, sgaldio, ymddygiad rhywiol uwch, ymosodiad rhywiol, treisio |
| Bygythiol | Gweiddi a rhegi i ddadlau, herio, neu ddychryn, iaith ddiraddiol neu feirniadol |
| Rheoli neu orfodi | Rheoli neu fonitro gweithgareddau dyddiol, monitro cyllid, ynysu oddi wrth deulu a ffrindiau |
| Emosiynol neu seicolegol | Galw enwau difrïol, atal hoffter, bygythiadau o hunan-niweidio a defnyddio ymddygiad mentrus neu beryglus, ystrywio, bygythiadau, blacmel |
| Economaidd | Dinistrio eiddo, mynnu neu ddwyn eiddo neu nwyddau, gwerthu eiddo, peryglu cyflogaeth neu denantiaethau, tynnu dirwyon |

**9) Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng ymddygiad profi ffiniau ac ymddygiad niweidiol sy'n gyfystyr â chamdriniaeth. Mae'n bwysig bod y disgrifiad cytunedig o CPA yn helpu i wneud y gwahaniaeth hwn.**

**9a) Mae ymchwil yn awgrymu y gall patrwm ymddygiad fod yn fodd gwahanu pwysig. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o gam-drin domestig yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yn nodi 'nad oes ots a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad'.**

**Ydych chi'n credu y dylai'r diffiniad o CPA gynnwys yr amod ar gyfer 'patrwm ymddygiad' neu alinio â'r diffiniad statudol o gam-drin domestig?**

- Dylai'r disgrifiad gynnwys yr amod ar gyfer 'patrwm ymddygiad'.
- **Dylai'r disgrifiad gyd-fynd â'r Ddeddf Cam-drin Domestig a chynnwys digwyddiadau unigol a chwrs ymddygiad.**
- Ni ddylai'r disgrifiad nodi'r naill na'r llall ond dylai'r canllawiau sy'n cyd-fynd ag ef nodi'r arlliwiau.

Esboniwch eich rhesymau:

Mae'r Rhwydwaith yn awgrymu y dylid alinio â'r Ddeddf Gamdriniaeth Ddomestig lle bo modd er mwyn galluogi cysondeb yn y ddarpariaeth gwasanaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr a chyflawnwyr.

---

**9b) Mae ymchwil yn awgrymu y gall rhieni neu ofalwyr sy'n teimlo bod angen iddynt addasu eu hymddygiad eu hunain i ddarparu ar gyfer ymddygiad plentyn fod yn arwydd pwysig bod ymddygiad profi ffiniau yn dod yn gamdriniol.**

**Ydych chi'n credu y dylai'r diffiniad hwn gynnwys rhieni yn addasu eu hymddygiad fel arwydd o ymddygiad camdriniol?**

- Dylai, dylai'r disgrifiad gynnwys rhieni neu ofalwyr yn addasu eu hymddygiad eu hunain i ddarparu ar gyfer ymddygiad plentyn
- Na ddylai, ni ddylai'r disgrifiad gynnwys rhieni neu ofalwyr yn addasu eu hymddygiad eu hunain i ddarparu ar gyfer ymddygiad plentyn
- **Ni ddylai'r disgrifiad gyfeirio'n benodol at y mater hwn ond dylid ei drafod yn y canllawiau cysylltiedig**

Esboniwch eich rhesymau:

Mae'r Rhwydwaith yn awgrymu y dylid cynnwys addasiadau i ymddygiadau rhieni yn y canllawiau. Awgrymwn y byddai cynnwys hyn yn y disgrifiad yn rhy eang. Er enghraifft, ar gyfer plant ag anghenion corfforol difrifol neu anghenion dysgu ychwanegol, mae'n anochel y bydd ar rieni angen elfen o ymddygiad addasol. Fodd bynnag, lle bo rhiant neu warcheidwad yn addasu eu hymddygiad i osgoi sgil-effeithiau trais neu gamdriniaeth, ac yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw opsiwn arall, yna dylid ei ystyried fel camdriniaeth a'i gynnwys o fewn y canllawiau hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai ei gynnwys yn y disgrifiad yn cael effaith niweidiol ar ein plant mwy diamddiffyn sy'n ymofyn cefnogaeth yn hytrach na chael eu beio.

---

**10) Mae'r categorïau cam-drin a gynhwysir yn y diffiniad arfaethedig uchod (corfforol neu rywiol, bygythiol, rheoli neu orfodi, seicolegol neu emosiynol, neu economaidd) yn cyd-fynd â'r rhai yn y diffiniad statudol o gam-drin domestig.**

**10a) A oes categorïau eraill sy'n benodol i'r math hwn o gamdriniaeth y dylid eu cynnwys yn y diffiniad?**

- **Oes (Nodwch)**
- Nac oes

If yes, please specify:

Er bod y Rhwydwaith yn ymwybodol nad yw'r rhestr o ymddygiadau'n gyflawn, rydym yn cydnabod bod plant a statws mewnfudo / fisa wedi cael eu defnyddio i dylanwadu ar ddioddefwyr, ac o ganlyniad, awgrymwn y dylid ystyried ymestyn:

Emosiynol neu seicolegol- I gynnwys 'bygythiadau neu weithredoedd i gyfyngu mynediad at blant'

Economaidd- I gynnwys 'gweithredoedd i gael effaith ar statws mewnfudo neu fisa i aros yn y DU'.

**10b) Ydych chi'n teimlo y dylid tynnu unrhyw un o'r categorïau uchod (corfforol neu rywiol, bygythiol, rheoli neu orfodi, seicolegol neu emosiynol, neu economaidd) o ddiffiniad CPA?**

- Ydw (Nodwch)
- **Nac ydw**

n/a

**11) A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ar y disgrifiad?**

Dim byd pellach i'w ychwanegu